# Chwiliad post o gofnodion Profiant Cymru a Lloegr

# PA1S

**Llenwch y ffurflen hon os ydych eisiau dod o hyd i ewyllys neu 'grant cynrychiolaeth' ar gyfer rhywun fu farw yn neu ar ôl 1858.**

Mae 'grant cynrychiolaeth' yn rhoi hawl cyfreithiol i unigolyn ddelio ag ystad person ymadawedig.

**Chwiliad ar-lein**
Defnyddwch ein gwasanaeth ar-lein a gallwch archebu dogfennau a'u cael o fewn 10 diwrnod gwaith.

**www.gov.uk/chwilio-ewyllys-profiant**

Os byddwch yn defnyddio ein gwasanaeth post, rydym yn anelu at ymateb o fewn **pedair wythnos** gyda chopïau o'r dogfennau bu ichi ofyn amdanynt neu lythyr yn esbonio nid yw grant wedi'i roi. Arhoswch nes bod y pedair wythnos wedi pasio cyn cysylltu â ni os gwelwch yn dda.

## Eich manylion

Cyfenw

Enwau cyntaf

Cyfeiriad llawn

Cod post

Cyfeiriad DX (os yw'n berthnasol)

Eich cyfeirnod (os oes un)

**Beth os wnaeth yr unigolyn farw yn y chwe mis diwethaf?**
Os wnaeth yr unigolyn farw o fewn y chwe mis diwethaf, efallai na fydd grant wedi'i roi eto. Dylech wirio'r gwasanaeth chwiliadau ar-lein yn rheolaidd i weld pan mae grant wedi'i roi. Yna gallwch archebu'r dogfennau.

Os na allwch chwilio ar-lein, gallwch wneud cais am chwiliad sefydlog a fydd yn golygu bod un copi yn cael ei anfon atoch pan fydd y grant yn cael ei roi. Ni fydd y copi wedi'i selio.

Ar ôl cyfnod o chwe mis heb ganlyniad, bydd eich chwiliad sefydlog yn dod i ben. Gallwch ymestyn cyfnod y chwiliad am chwe mis arall o fewn mis o'r dyddiad terfyn trwy dalu £4 arall.

Byddwn yn anfon llythyr atoch yn nodi dyddiad gafodd y chwiliad sefydlog ei weithredu.

### Anfonwch eich ffurflen wedi'i llenwi gyda'ch taliad i:

Adran Copïau Post a Chwiliadau y Gofrestrfa Brofiant
District Probate Registry
York House
31 York Place
Leeds
LS1 2BA

Os byddwch yn defnyddio'r gwasanaeth post DX, ein cyfeiriad yw: **DX 26451 Leeds Park Square**

Peidiwch ag anfon dalen flaen na staplo eich siec, archeb bost neu archeb arian rhyngwladol i'r ffurflen hon.

Llenwch gweddill y ffurflen dros y dudalen os gwelwch yn dda


© Hawlfraint y Goron 2026

## Math o chwiliad

Gallwch ond wneud cais am **un**math o chwiliad.

| Rwy’n gwneud cais am chwiliad ar gyfer: | Dylech ond defnyddio’r opsiwn chwilio hwn os: |
|---|---|
| ☐ yw'n wybodaeth am ystad neu ymchwil hanes teulu | mae arnoch angen gwybodaeth am ystad neu ar gyfer ymchwil hanes teulu. Byddwn yn anfon copi o’r ewyllys a’r grant atoch. |
| ☐ copi i **weinyddu ystad o fewn y DU** | mae arnoch angen gweinyddu ystad o fewn y DU. Byddwn yn anfon copïau wedi eu selio o’r ewyllys a’r grant atoch. |
| ☐ copi i **weinyddu ystad y tu allan i’r DU**<br>Gwlad/gwledydd sy’n ei ddefnyddio: | mae arnoch angen gweinyddu ystad y tu allan i’r DU. Byddwn yn anfon copïau wedi’u selio a chopïau wedi’u hardystio o’r ewyllys a’r grant. |
| ☐ chwiliad sefydlog | gwnaeth yr unigolyn farw o fewn y chwe mis diwethaf, efallai na fydd grant wedi’i roi eto. Bydd un copi o’r grant (gan gynnwys ewyllys, os oes un) yn cael ei anfon atoch os rhoddir y grant yn y chwe mis nesaf. |

## Manylion yr unigolyn ymadawedig

Cyfenw

Enwau cyntaf

Enwau amgen

Dyddiad eu marwolaeth

DIWRNOD MIS BLWYDDYN

Cyfeiriad llawn

Cod post

## Y ffi

Y ffi ar gyfer chwiliad yw **£16**. Mae hyn yn cynnwys **un copi o ddogfen** - mae hyn yn cynnwys un copi o'r grant ac os yn berthnasol, un copi o'r ewyllys. Os oes arnoch angen gopïau ychwanegol, mae ffi o **£16 fesul copi o ddogfen**.

Y ffi ar gyfer chwiliad sefydlog (ni fydd y copi hwn wedi'i selio) yw **£4.00**.

Sawl copi ychwanegol sydd arnoch eu hangen?

| | |
|---|---|
| Y ffi am chwiliad (lle bo grant wedi’i roi yn barod) | **£16.00** |
| Copïau ychwanegol o’r grant (gan gynnwys yr ewyllys, os yw’n berthnasol) | **£** |
| **Cyfanswm y ffi i’w thalu** | **£** |
| **Chwiliad sefydlog** os nad ydych yn gwybod os yw grant wedi’i roi. | **£4.00** |

Rhif PBA (os yw’n berthnasol)

Gwnewch eich siec, archeb bost neu archeb arian rhyngwladol (mewn punnoedd sterling) yn daladwy i: ‘GLlTEF’

Ysgrifennwch enw’r unigolyn ymadawedig ar gefn y siec, archeb bost neu archeb arian rhyngwladol.

### Cyn dychwelyd eich ffurflen, gwiriwch eich bod wedi:

- llenwi eich manylion ar y dudalen flaen
- ticio un blwch yn unig ar gyfer y chwiliad
- rhoi manylion yr unigolyn ymadawedig
- amgau'r ffi gywir